**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Aelodau'r Cynulliad

17 Mehefin 2014

Annwyl Aelodau'r Cynulliad

Yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 21 Mai, gofynnodd Mark Isherwood AC a ellid ystyried cyflwyno Bathodynnau Glas dros dro, ac roeddwn am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r holl Aelodau am y mater hwn.

Rwy'n cydnabod y byddai unigolion sydd â chyflwr dros dro sy'n cyfyngu'n ddifrifol ar eu gallu i symud yn gweld y manteision o gael Bathodyn Glas, ond mae angen ystyried hynny ochr yn ochr ag anghenion deiliad Bathodynnau presennol. Caiff Bathodynnau Glas eu rhoi i bobl sy'n wynebu rhwystrau gydol oes rhag cael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau.

Rhaid hefyd ystyried y broblem o sicrhau bod Bathodynnau'n cael eu dychwelyd ar ôl i'r cyflwr dros dro wella a sicrhau na chaiff y Bathodyn ei gamddefnyddio. Roedd y Grŵp Adolygu Arbenigol wedi rhoi rhywfaint o ystyriaeth i'r posibilrwydd o roi Bathodynnau ar gyfer cyflyrau dros dro, ond daeth i'r casgliad na fyddai hyn y briodol efallai, yn arbennig pan fo'r broses o wella yn dibynnu ar ymarfer corff a mwy o symud.

Mae angen gwneud rhagor o waith yn y maes hwn, ac rwyf wedi gofyn i fy swyddogion edrych ar y mater, gan gynnwys yr awgrym i gyflwyno Bathodynnau â chyfyngiadau amser llai.

Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Gweinidogion unwaith y bydd gen i ragor o wybodaeth.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*